Llywodraeth EM

# CONTEST

# Strategaeth Gwrthderfysgaeth y Deyrnas Unedig

## Adroddiad Blynyddol

# CONTEST

# Strategaeth Gwrthderfysgaeth

# y Deyrnas Unedig

## Adroddiad Blynyddol

Cyflwynwyd i'r Senedd

gan Ysgrifennydd Gwladol y Swyddfa Gartref

drwy Orchymyn Ei Mawrhydi

Ebrill 2014

**OGL**

(h) Hawlfraint y Goron 2014

Cewch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded y Llywodraeth Agored v.2. I weld y drwydded hon, ewch i http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/2/ neu e-bostiwch PSI@nationalarchives.gsi.gov.uk. Lle nodwyd bod y wybodaeth gan drydydd parti, rhaid gofyn am ganiatâd deiliad hawlfraint y wybodaeth honno i'w defnyddio.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael trwy fynd i www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom yn public.enquiries@homeoffice.gsi.gov.uk

Print ISBN 9781474101738

Gwe ISBN 9781474101745

Argraffwyd yn y DU gan y Williams Lea Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

ID 2634543 04/14 38613 19585

Argraffwyd ar bapur a wnaed o bapur ag o leiaf 75% o ffibrau wedi eu hailgylchu

# Cynnwys

**Strategaeth Gwrthderfysgaeth y Deyrnas Unedig**

**Adroddiad Blynyddol**


| | |
|---|---|
| **Rhagair** | 5 |
| **Rhan 1 Cyflwyniad** | 7 |
| Y Bygythiad | 7 |
| **Rhan 2 Ein hymateb** | 9 |
| *Erlid* | 9 |
| *Atal* | 12 |
| *Amddiffyn* | 14 |
| *Paratoi* | 15 |
| **Casgliad** | 17 |

## Rhagair yr Ysgrifennydd Cartref

Bu 2013 yn flwyddyn sobreiddiol i bawb sy'n gysylltiedig â'r ymdrechion i wrthsefyll bygythiadau terfysgaeth i'r wlad hon.

Fe welsom y marwolaethau cyntaf ym Mhrydain Fawr a oedd yn gysylltiedig â therfysgaeth ers 2005, a thrais erchyll gan derfysgwyr yn erbyn gwladolion Prydeinig dramor. Rydym wedi parhau i wneud penderfyniadau anodd bob dydd o ran sut i reoli'r risg y mae miloedd o eithafwyr yn y wlad hon yn ei pheri, wrth gynllunio neu'r hwyluso'r mwyafrif o'r cynllwynion terfysgaeth gartref. Ac fe welsom grynhoad na welwyd erioed mo'i debyg o'r blaen o ran y bygythiad gan derfysgwyr yn Syria, ac oddi yno, a  hynny hyd yn oed wrth i ni wrthsefyll bygythiadau o wledydd eraill lle mae hi'r un mor anodd i'n hasiantaethau ac adrannau diogelwch weithredu.

Mae gwaith arbennig ein hasiantaethau diogelwch a'r rhai sy'n gorfodi'r gyfraith wedi parhau, a llawer ohono heb ei gyhoeddi a heb gydnabyddiaeth, heblaw gan y rheini ohonom sydd â'r fraint o weithio gyda nhw. Byddaf i'n dal ati i sicrhau bod y pwerau, y gallu, a ffydd y cyhoedd ganddynt er mwyn eu galluogi i ddatgelu, atal ac erlyn y bobl hynny sydd am achosi niwed i ni. Er mwyn i ni aros gam o flaen bygythiad y terfysgwyr, rhaid i ni wneud cynnydd pellach hefyd i atgyfnerthu ein rhaglenni atal terfysgaeth yn seiliedig ar argymhellion y Tasglu Gwrtheithafiaeth, a gwneud rhagor i atgyfnerthu diogelwch ein ffiniau.

Yn fy adroddiad blynyddol diwethaf ar y strategaeth CONTEST, fe rybuddiais nad oedd unrhyw le i laesu dwylo. Mae hynny wedi bod yn wir. Nid oes yna unrhyw reswm i gredu y bydd 2014 yn llai beichus, ond rwy'n hyderus y bydd pawb sydd ynghlwm wrth roi'r strategaeth ar waith yn codi i'r her.

Theresa May AS

Yr Ysgrifennydd Cartref

## RHAN 1: CYFLWYNIAD

1.1 Ym mis Gorffennaf 2011, cyhoeddodd y Llywodraeth fersiwn newydd o CONTEST, sef strategaeth gwrthderfysgaeth y DU. Ymrwymodd y Llywodraeth i ddarparu diweddariad blynyddol ar weithrediad y strategaeth, ac mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng Ionawr a Rhagfyr 2013. Nid yw'r adroddiad hwn yn cynnwys terfysgaeth ddomestig yng Ngogledd Iwerddon, Ysgrifennydd Gwladol Gogledd Iwerddon sy'n gyfrifol am hynny.

### Y Bygythiad

1.2 Mae'r bygythiad byd-eang o du terfysgaeth yn uchel o hyd: yn 2012 (sef y flwyddyn ddiwethaf y mae ystadegau wedi eu cyhoeddi ar ei chyfer) gwelwyd bron i 8,500 o ymosodiadau terfysgol mewn 85 o wledydd, gan achosi bron i 15,500 o farwolaethau.[1] Mae nifer yr ymosodiadau a nifer y marwolaethau yn cynyddu.

1.3 Yn y DU, bu'r bygythiad o du terfysgaeth ryngwladol (yn ôl asesiad y Cyd-ganolfan Dadansoddi Terfysgaeth) yn 'SYLWEDDOL' trwy gydol 2013, sy'n golygu bod asesiadau'n dangos bod ymosodiad yn bosibilrwydd cadarn. Mae'r prif fygythiad i'r DU yn parhau i ddod o du terfysgwyr Islamaidd milwriaethus. Er bod rhai o'r cynllwynion terfysgol hyn yn cael eu datblygu'n llwyr gan wladolion Prydeinig sy'n byw yn y wlad hon, mae gan lawer o'r bygythiadau rydym yn eu hwynebu gysylltiadau sylweddol â thramor o hyd.

1.4 Achosodd dau achos o derfysgaeth ddwy farwolaeth, sef y marwolaethau cyntaf ar dir Prydain Fawr ers 2005. Yn Ebrill 2013, cafodd Mohammed Saleem ei lofruddio wrth gerdded adref o'r mosg yn Birmingham. Cafodd dyn ei arestio ym mis Gorffennaf a chyfaddefodd i'r llofruddiaeth a thri ymgais at derfysgaeth yn erbyn mosgiau; cafodd ddedfryd o garchar am oes ym mis Hydref. Ym mis Mai 2013, cafodd Lee Rigby, a oedd yn filwr Prydeinig, ei lofruddio yn y stryd ger barics Woolwich. Cafodd dau ddyn eu cyhuddo mewn cysylltiad â'r ymosodiad yn sgil hynny; a chafwyd y ddau yn euog o lofruddiaeth ym mis Rhagfyr. Ym mis Chwefror eleni, cafodd y ddau ddyn ddedfryd o garchar am oes, gydag un yn cael dedfryd oes gyfan, a'r llall yn cael dedfryd arfaethedig o leiaf 45 mlynedd o hyd.

1.5 Cafodd tri ar ddeg o wladolion Prydeinig eu lladd dramor mewn ymosodiadau gan grwpiau terfysgol sy'n gysylltiedig ag Al Qa'ida. Dyma'r nifer fwyaf ers 2005.[2]

1.6 Y datblygiad mwyaf arwyddocaol mewn perthynas â therfysgaeth fyd-eang yn 2013 yw'r bygythiad cynyddol o du grwpiau terfysgol yn Syria, lle mae sawl carfan o Al Qa'ida yn gweithredu. Mae'r grwpiau terfysgol sy'n ymladd yn Syria wedi cael cefnogaeth gan ymladdwyr tramor, ac mae eu niferoedd yn cynyddu'n gyflym. Mae hyn yn cynnwys nifer fechan o gannoedd o'r wlad hon (mwy o lawer na'r nifer a deithiodd i Irac) a miloedd o

[1] Y Consortiwm ar gyfer Astudio ac Ymateb i Derfysgaeth (START). http://www.start.umd.edu/news/despite-fewer-attacks-western-world-global-terrorism-increasing

[2] Cafodd chwech o wladolion Prydain eu lladd yn ymosodiad In Amenas yn Algeria, chwech yn ymosodiad Westgate yn Nairobi, a lladdwyd un yn Nigeria ar ôl cael ei herwgipio ynghyd â chwech o wladolion tramor eraill.

wledydd eraill. Mae delio â therfysgaeth yn Syria yn her sylweddol oherwydd nifer y bobl sy'n ymladd gyda'r grwpiau terfysgol niferus yn Syria, pa mor agos y maent at y DU, pa mor rhwydd yw hi iddynt groesi ffiniau bregus, ac argaeledd parod arfau. Mae'r bygythiad i'r DU o du'r grwpiau yn Syria, a'r bygythiad o du ymladdwyr tramor sy'n dychwelyd i'r wlad hon yn destun pryder i ni.

1.7 Er eu bod wedi lleihau o ran eu nifer, mae arweinwyr uwch Al Qa'ida yn yr ardaloedd sy'n ffinio â Phacistan ac Affganistan yn parhau i alw am jihad byd-eang, yn cefnogi rhwydweithiau terfysgol eraill, ac wedi darparu hyfforddiant terfysgol i wladolion Prydeinig. Mae aelodau cyswllt Al Qa'ida yn dal i fod yn fygythiad sylweddol i'r DU a buddiannau'r DU, yn arbennig yn Yemen, Gogledd a Gorllewin Affrica (lle cyflawnodd is-grŵp o Al Qa'ida ymosodiad sylweddol yn erbyn cyfleuster nwy yn Algeria) ac yn Somalia. Yn Irac, mae'r ymosodiadau terfysgol sy'n gysylltiedig ag Al Qa'ida wedi cynyddu'n helaeth, gan ladd dros naw mil o bobl yn 2013. Ar draws Gogledd Affrica, mae nifer gynyddol o grwpiau terfysgol llai wedi codi, gan beri bygythiad cynyddol i fuddiannau'r DU.

1.8 Daw'r bygythiad o derfysgaeth yn erbyn y DU o du amrywiaeth cynyddol o wledydd a grwpiau, y mae llawer ohonynt yn rhai newydd. Mae hyn yn gosod sialensiau newydd o ran ein gwaith gwrthderfysgaeth.

**RHAN 2: EIN HYMATEB**

2.1 Bwriad ein strategaeth CONTEST yw delio â phob math o derfysgaeth ac mae'n parhau i fod yn seiliedig ar bedwar prif faes gwaith, sef:

- **Erlid**: ymchwilio i ymosodiadau terfysgol a'u hatal
- **Atal**: gweithio er mwyn atal pob rhag mynd yn derfysgwyr neu rhag cefnogi terfysgaeth ac eithafiaeth;
- **Amddiffyn**: gwella ein diogelwch amddiffynnol er mwyn atal ymosodiad terfysgol; a
- **Pharatoi**: gweithio i leihau effaith ymosodiadau terfysgol ac ymadfer mor gyflym â phosibl yn sgil ymosodiadau.

2.2 Rydym yn teimlo bod yr amrywiaeth eang yma o weithgarwch yn briodol i'r bygythiadau a allai ein hwynebu, ac mae'r strategaeth wedi cael ei phrofi dros nifer fawr o flynyddoedd. Ond mae angen i agweddau ar ein strategaeth esblygu er mwyn ymateb i'r bygythiadau newidiol.

**ERLID**

2.3 Yn ystod y deuddeg mis hyd Fedi 2013, gwelwyd 257 o arestiadau a oedd yn gysylltiedig â therfysgaeth ym Mhrydain Fawr; cafodd 48 o bobl eu cyhuddo o droseddau terfysgaeth, a 73 â throseddau eraill. Mae'r ffigurau hyn yn cyd-fynd ag unrhyw gyfnod arall o ddeuddeg mis ers 2001. Mae 28 o'r bobl a gyhuddwyd o droseddau terfysgaeth eisoes wedi cael eu herlyn; mae 25 naill ai wedi pledio'n euog, neu wedi eu cael yn euog. Mae nifer yr erlyniadau llwyddiannus a'r cynllwynion a drechwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn dangos sgil a phroffesiynoliaeth ein heddlu a'n hasiantaethau diogelwch a chudd-wybodaeth, a pha mor gadarn yw'r systemau a'r strwythurau sydd wedi cael eu datblygu ar gyfer ein gwaith gwrthderfysgaeth dros nifer o flynyddoedd.

2.4 Daeth yr achosion llys a oedd yn deillio o bedwar cynllwyn terfysgol o bwys a drechwyd yn 2011-12 i ben yn 2013. Plediodd 24 person yn euog, neu fe'u cawsant yn euog, sef cyfradd euogfarnu o 96 y cant. Cafodd 50 y cant o'r rhai a gafwyd yn euog ddedfrydau o garchar am dros ddeng mlynedd.

2.5 Euogfarnu mewn llys yw'r ffordd fwyaf effeithiol o atal terfysgwyr. Ond lle nad yw euogfarn yn bosibl, defnyddir holl rym y pwerau eraill i atal gweithgarwch terfysgol. Ymysg y pwerau hyn, defnyddiwyd y Mesurau Atal ac Ymchwilio i Derfysgaeth (TPIM) i gynorthwyo'r heddlu a'r asiantaethau diogelwch a chudd-wybodaeth i reoli'r risg o du'r bobl y credir eu bod yn gysylltiedig â therfysgaeth, ond na ellir eu herlyn. Asesiad yr heddlu a'r Gwasanaethau Diogelwch yw bod TPIMs wedi bod yn effeithiol wrth leihau'r risg y mae'r rhai sy'n destun hysbysiadau TPIM a'u cyn-rwydweithiau yn ei pheri i ddiogelwch y genedl. Safbwynt y Llywodraeth o hyd yw na ellir sefydlu TPIMs am gyfnod amhenodol, a phennwyd terfyn amser o ddwy flynedd adeg eu cyflwyno yn 2011. Mae yna gynlluniau mewn grym i reoli pobl pan ddaw cyfnod eu TPIMs i ben (am eu bod nhw wedi bod mewn grym erioed i reoli pobl a gafwyd yn euog o droseddau terfysgaeth ar ôl eu rhyddhau o'r carchar). Ar 1

Tachwedd 2013, dihangodd Mohammed Ahmed Mohamed rhag ei hysbysiad TPIM. Cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol y byddai'n cynnal adolygiad o amgylchiadau'r achos hwn. Mae'r proses yr adolygiad ar y gweill ar hyn o bryd.

2.6 Rydym wedi defnyddio pwerau ar fewnfudo hefyd. Yn 2013, defnyddiwyd y pwerau hyn i:

- allgludo tri o wladolion tramor yr amheuir eu bod wedi bod yn ymwneud â therfysgaeth, gan ddefnyddio sicrwydd diplomataidd i amddiffyn eu hawliau dynol. Abu Qatada oedd un o'r rhain;
- allgau deg o wladolion tramor ar sail diogelwch y genedl, ac 14 ar sail 'ymddygiad annerbyniol' gan gynnwys areithio eithafol; ac
- amddifadu 22 o wladolion deuol o'u dinasyddiaeth Brydeinig ar sail diogelwch y genedl neu lle cafwyd dinasyddiaeth trwy dwyll.

2.7 Rydym wedi diweddaru'r meini prawf ar gyfer defnyddio'r Uchelfraint Frenhinol i wrthod neu dynnu pasbort Prydeinig yn ôl ar sail lles y cyhoedd, sy'n gwella ein gallu i rwystro gwladolion Prydeinig rhag teithio dramor, ac yn enwedig i Syria, i gymryd rhan mewn terfysgaeth a hyfforddiant. Mae'r pŵer hwn wedi cael ei ymarfer pedair gwaith ar ddeg ers i'r meini prawf gael eu diweddaru yn Ebrill 2013. Rydym wedi diwygio Atodlen 7 i Ddeddf Terfysgaeth 2000, sy'n galluogi swyddogion yr heddlu i stopio a holi, a lle bo angen, i gadw a chwilio pobl sy'n teithio trwy borthladdoedd er mwyn canfod a oes yna amheuaeth eu bod yn gysylltiedig â therfysgaeth. Bydd darpariaethau'r Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona yn cwtogi'r cyfnod hiraf y gellir holi person o naw awr i chwech; yn egluro hawl yr unigolion a ddelir i gael cyngor cyfreithiol; ac yn cyflwyno adolygiadau statudol o'r cyfnod cadw. Bwriedir i'r newidiadau hyn sicrhau bod ein pwerau yn taro'r cydbwysedd priodol rhwng amddiffyn diogelwch y genedl a diogelu rhyddid yr unigolyn.

2.8 Diarddelwyd tri sefydliad terfysgol gan yr Ysgrifennydd Gwladol hefyd: sef Boko Haram yn Nigeria; Minbar Ansar Deen sydd â'i wreiddiau yn y DU; ac Imarat Kavkaz yn Rwsia. Cafodd gorchmynion newid enw eu gosod gerbron y Senedd hefyd, gan gynnwys un a oedd yn cydnabod bod Ffrynt Al Nusrah yn Syria yn rhan o Al Qa'ida; a chytunodd Gweinidogion Tramor yr UE i ddynodi Adain Filwrol Hizb'allah, gan rewi asedau'r sefydliad ar draws yr UE sydd wedi ei gwneud hi'n anos i'r sefydliad weithredu.

2.9 Mae grwpiau eithafol a therfysgol (a sefydliadau treisgar eraill) yn defnyddio'r dechnoleg gyfathrebu ddiweddaraf yn gynyddol er mwyn osgoi cael eu canfod a dod yn destun ymchwiliadau. O dan y ddeddfwriaeth gyfredol, nid yw hi'n bosibl mwyach i'r asiantaethau sy'n gorfodi'r gyfraith ac asiantaethau cudd-wybodaeth gael data am gysylltiadau domestig gan gwmnïau cyfathrebu bob tro (h.y. data sy'n dangos pryd a ble y gwnaed cysylltiad electronig e.e. cysylltiad trwy'r rhyngrwyd - a chan ac i bwy). Mae data cyfathrebu yn aml yn rhan bwysig o ymchwiliad a gellir ei ddefnyddio fel tystiolaeth yn y llys. Cafodd deddfwriaeth ddrafft, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau cyfathrebu gadw rhagor o ddata, ei chyhoeddi ym mis Mehefin 2012 a bu'n destun craffu gan Gydbwyllgor o ddau Dŷ'r Senedd a'r Pwyllgor Cudd-wybodaeth a Diogelwch (ISC). Cyhoeddodd y ddau adroddiadau ym mis Rhagfyr 2012 a oedd yn cydnabod bod angen gweithredu. Mae'r Llywodraeth yn ystyried pa alluoedd technegol eraill y gellir eu cyflawni o dan y ddeddfwriaeth gyfredol, ac mae'n buddsoddi mewn hyfforddiant er mwyn sicrhau bod gan y swyddogion sy'n gorfodi'r gyfraith y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i wneud eu gwaith.

2.10 Mae gan y DU system drylwyr i ddiogelu, craffu'n annibynnol a sicrhau atebolrwydd Seneddol ar y pwerau ymwthiol sydd eu hangen yn aml at ddibenion atal terfysgaeth. Mae'r Ddeddf Cyfiawnder a Diogelwch, a gafodd Gydsyniad Brenhinol ym mis Ebrill 2013, yn ymestyn cylch gwaith y Pwyllgor Seneddol ar Gudd-wybodaeth a Diogelwch, gan atgyfnerthu ei ddyletswyddau wrth gadw trosolwg o'r asiantaethau diogelwch a chudd-wybodaeth, ac egluro ei annibyniaeth. Yn 2013, cyhoeddodd yr ISC adroddiad arbennig ar ddefnyddio data cyfathrebu'r asiantaethau diogelwch a chudd-wybodaeth (a oedd yn amlygu'r rôl hanfodol y mae data cyfathrebu'n ei chwarae mewn ymchwiliadau), a'i Adroddiad Blynyddol. Cyhoeddir adroddiad manwl pellach ar yr ymosodiad terfysgol yn Woolwich ar 22 Mai 2013 cyn yr haf.

2.11 Cyflwynodd y Ddeddf weithdrefnau newydd hefyd a oedd yn caniatáu i gudd-wybodaeth sensitif gael ei harchwilio gan farnwr annibynnol trwy achos caeedig mewn llys sifil. Mae hyn yn golygu bod gan bobl yr hawl i gael gwrandawiad cyflawn, a phenderfyniad ar unrhyw honiadau yn erbyn yr asiantaethau cudd-wybodaeth; a bod yr asiantaethau'n cael cyfle teg i'w hamddiffyn eu hunain, lle na fu hyn yn bosibl gynt heb beryglu diogelwch y genedl trwy ddatgelu gwybodaeth sensitif mewn llys agored. Hyd yn hyn, rydym wedi defnyddio'r ddeddfwriaeth newydd i wneud cais llwyddiannus am 'achos deunydd caeedig' mewn un achos lle gwnaed honiadau am gysylltiad y DU â cham-drin carcharorion sydd yn y ddalfa dramor, sy'n honiad y mae'r Llywodraeth yn ei ddadlau'n gadarn. Daeth Deddf Diogelu Rhyddidau 2012 i rym yn 2013 hefyd, gan sefydlu Comisiynydd Biometreg newydd i oruchwylio gwaith yr heddlu wrth gadw deunydd biometrig am resymau diogelwch cenedlaethol.

2.12 Yn 2012, cyhoeddodd David Anderson QC, sef yr Adolygwr Annibynnol mewn perthynas â Deddfwriaeth Terfysgaeth adroddiad ar weithrediad Deddf Terfysgaeth 2000; Deddf Mesurau Atal ac Ymchwilio i Derfysgaeth 2012; a Deddf Rhewi Asedau Terfysgwyr ac ati 2010. Mae David Anderson wedi datgan yn glir ei fod yn teimlo bod cyfreithiau gwrthderfysgaeth y DU yn gadarn, a bod gallu'r DU i ymdopi â'r peth yn briodol i'r bygythiad cyfredol ar y cyfan. Mae e wedi croesawu'r camau y mae'r Llywodraeth hon wedi eu cymryd i adfer cydbwysedd rhai o'n pwerau mwyaf eang eu cwmpas, gan gynnwys y pwerau stopio a chwilio ym maes terfysgaeth, ac mae'n parhau i adolygu'r meysydd allweddol eraill yn ofalus. Mae e wedi ymrwymo i adrodd ar y defnydd o bwerau porthladdoedd a ffiniau yn Atodlen 8 o Ddeddf 2000, ac ar y defnydd o sicrwydd diplomataidd wrth alltudio pobl sy'n byw yn y wlad hon ond yr amheuir eu bod yn gysylltiedig â therfysgaeth.

2.13 Mae awdurdodi ymyrryd â chyfathrebu unigolyn yn destun craffu annibynnol gan Gomisiynydd y Gwasanaethau Cudd-wybodaeth, a'r Comisiynydd Ymyrryd â Chyfathrebu, y mae'r ddau wedi bod mewn swyddi barnwrol uchel, ac y mae'r ddau yn adrodd yn uniongyrchol i'r Prif Weinidog. Mae deiliad presennol y swyddi, sef Syr Mark Waller QC a Syr Anthony May QC, yn adolygu'r ffordd y mae'r penderfyniadau hyn yn cael eu gwneud er mwyn sicrhau eu bod yn hollol gyson â'r gyfraith. Mae'r Prif Gomisiynydd Gwyliadwraeth, Syr Christopher Rose, yn goruchwylio'r defnydd o wyliadwriaeth gudd. Cyhoeddodd y tri adroddiadau ym mis Gorffennaf 2013, a oedd yn pwysleisio gwerth defnyddio pwerau

ymwthiol mewn achosion o droseddu a diogelwch cenedlaethol, a chywirdeb a phroffesiynoliaeth y bobl sy'n eu rhoi ar waith.[3]

2.14 Am fod llawer o'r bygythiadau o ran terfysgaeth yn y DU yn dal i ddeillio o dramor, mae integreiddio ein gwaith gwrthderfysgaeth weithredol gartref a thramor yn rhan annatod o CONTEST, ac yn gryfder pwysig. Rydym yn parhau i gydweithio'n agos ag amrywiaeth eang o wledydd ar draws pob agwedd ar waith CONTEST. Ond mae'r gwaith gwrthderfysgaeth ryngwladol yn dod yn fwyfwy anodd wrth i'r bygythiad o ran terfysgaeth ledu ar draws rhagor o wledydd, am nad oes gan lawer ohonynt asiantaethau effeithiol i orfodi'r gyfraith a sicrhau diogelwch yn unol â'n safonau ni o ran hawliau dynol a rheolaeth cyfraith. Dyna pam ein bod yn datblygu Partneriaethau Cyfiawnder a Hawliau Dynol â'r gwledydd lle mae'r bygythiad i fuddiannau diogelwch y DU ar ei fwyaf. Nid mentrau un tro mo'r rhain, ond yn hytrach, prosesau systemataidd i feithrin gallu ein partneriaid ym maes gwrthderfysgaeth i gyd-fynd â'n safonau ni o ran hawliau dynol a rheolaeth cyfraith. Mae hyn yn cydblethu â'n rhaglenni datblygu, ac â phartneriaid rhyngwladol eraill lle bo hynny'n briodol.

2.15 Pan fu'r DU yn Llywydd ar y G8, buom yn arwain gwaith i atal yr arfer o dalu pridwerth i grwpiau terfysgol (cafodd tua hanner cant o wladolion tramor eu herwgipio gan grwpiau terfysgol yn 2013 ac rydym yn amcangyfrif i'r grwpiau hyn gael o leiaf 45 miliwn USD mewn taliadau pridwerth, a hwylusodd tipyn o waith recriwtio a gweithredol); ym mis Ionawr 2014, mabwysiadodd Cyngor Diogelwch y Cenhedloedd Unedig ei gynnig annibynnol cyntaf, a gyflwynwyd gan y DU, a oedd yn galw ar yr aelod-wladwriaethau i atal terfysgwyr rhag cael taliadau pridwerth.

2.16 Yn dilyn yr argymhellion a bennwyd ym Mhapur Gwyn Chwefror 2012 o dan y pennawd Diogelwch Cenedlaethol trwy Dechnoleg, rydym wedi cynyddu'r cymorth ar gyfer diwydiant diogelwch y DU mewn marchnadoedd allforio tramor, lle mae masnach yn hanfodol i'n diogelwch ac i'n ffyniant.

2.17 O 5 Mehefin 2013 ymlaen, cyhoeddwyd deunydd dirgel a gafodd ei ddwyn o GCHQ a'r NSA yn yr Unol Daleithiau yn y cyfryngau yn y wlad hon a thramor. Ar 25 Hydref 2013, dywedodd y Prif Weinidog: "Y pwynt yw, beth y mae Snowden yn ei wneud, ac i ryw raddau, beth y mae'r papurau newydd yn ei wneud trwy ei gynorthwyo, yw dangos i bobl sydd am ein niweidio sut i osgoi a dianc rhag cudd-wybodaeth, goruchwyliaeth a thechnegau eraill. Ni fydd hynny'n gwneud ein byd yn lle mwy diogel; yn hytrach bydd yn gwneud ein byd yn fwy peryglus." Nododd y Prif Weinidog yn glir hefyd ei fod "yn fodlon bod ein hasiantaethau cudd-wybodaeth yn cael eu llywodraethu mewn ffordd briodol, eu cynnal mewn ffordd briodol, eu bod yn gweithredu'n unol â'r gyfraith a'u bod yn agored i graffu gan y Senedd." Mae datguddio dulliau a thechnegau ein hasiantaethau sy'n gorfodi'r gyfraith a'r rhai diogelwch ar adeg pan fônt yn wynebu sialensiau newydd wrth fynd i'r afael â bygythiadau terfysgol niferus, wedi gwneud eu tasg yn anos o lawer.

---

[3] Adroddiad y Comisiynydd Cudd-wybodaeth ar gyfer 2012, Y Gwir Anrh. Syr Mark Waller, cyhoeddwyd 18 Gorffennaf 2013 – http://isc.intelligencecommisioners.com/docs/Intelligence%20Services%20Commissioner%202013%20V8%20WEB.pdf
Adroddiad Blynyddol 2012 y Comisiynydd Ymyrryd â Chyfathrebu , Syr Paul Kennedy, a gyhoeddwyd ar 18 Gorffennaf 2013 – http://www.official-documents.gov.uk/document/hc1314/hc05/0571/0571.pdf
Adroddiad y Prif Swyddog Gwyliadwraeth, y Gwir Anrh Syr Christopher Rose, cyhoeddwyd 18 Gorffennaf 2013 – http://www.official-documents.gov.uk/document/hc1314/hc05/0577/0577.pdf

**ATAL**

2.18 Mae gwneud gwaith effeithiol  er mwyn atal pobl rhag cael eu denu at eithafiaeth a therfysgaeth yn dal i fod yn rhan hanfodol o'n strategaeth gwrthderfysgaeth. Ers diwygio'r strategaeth Atal yn 2011, ac araith y Prif Weinidog ym Munich[4], mae gwaith Atal wedi canolbwyntio ar  fynd i'r afael ag eithafiaeth o bob math, gan gynnwys eithafiaeth nad yw'n dreisgar. Mae Atal yn cynnwys rhaglenni i atal propaganda terfysgol ac eithafol ar raddfa helaeth ac yn rhwystro'r bobl hynny sy'n gyfrifol am ei greu, ac yn cynnal rhaglenni ymyrraeth sy'n cynorthwyo pobl sydd mewn perygl o gael ei recriwtio i weithgarwch terfysgol. Yn ogystal â dibynnu ar yr heddlu, mae gwaith Atal yn dibynnu hefyd ar amrywiaeth eang iawn o adrannau'r Llywodraeth, y gweinyddiaethau datganoledig yng Nghymru a'r Alban, awdurdodau lleol ac yn arbennig, sefydliadau yn y gymuned a sefydliadau ffydd. Yn sgil yr ymosodiad terfysgol yn Woolwich ym mis Mai 2013, galwodd y Prif Weinidog gyfarfod o'r Tasglu Eithafiaeth (ETF) i ystyried dulliau'r Llywodraeth o fynd i'r afael ag eithafiaeth. Adroddodd y Tasglu nôl â'i argymhellion ym mis Rhagfyr 2013. Adlewyrchir y rhain isod.

2.19 Mae mwy a mwy o bropaganda terfysgol ac eithafol ar gael ar-lein, a hynny'n aml ar gyfer pobl ifanc neu fregus, ac Islamiaeth filwriaethus sy'n ysbrydoli'r deunyddiau hyn yn aml iawn. Mae tîm penodol o heddlu wedi dileu dros 21,000 o ddarnau o gynnwys terfysgol anghyfreithlon a gafwyd ar-lein ers 2010, gan gydweithio'n agos iawn â grwpiau cymunedol a'r diwydiant cyfathrebu. Rydym wedi dal ati i gydweithio â'r diwydiant er mwyn sicrhau bod pecynnau hidlo yn cymryd deunydd terfysgol i ystyriaeth. Daeth yr ETF i'r casgliad y dylid gwneud mwy yn y maes hwn, ac y dylem geisio cymorth y sector wrth gyfyngu rhagor ar allu defnyddwyr yn y DU i gyrchu'r llwyth o ddeunyddiau terfysgol sy'n anghyfreithlon o dan ein cyfraith ni, ond sy'n cael eu cynnal dramor. Mae yna drefniadau tebyg mewn grym ar gyfer delweddau anghyfreithlon o gam-drin plant. Rydym yn gweithio gyda'r diwydiant hefyd i sicrhau bod offer sy'n hidlo cynnwys niweidiol sy'n ystyriol o deuluoedd yn ymdrin â deunydd eithafol annymunol ond cyfreithlon, ac i'w gwneud yn haws i'r cyhoedd hysbysu'r awdurdodau am ddeunydd sy'n peri tramgwydd iddynt.

2.20 Er bod radicaleiddio ar-lein yn fygythiad sylweddol, mae'r broses o radicaleiddio'n dibynnu'n aml iawn ar gysylltiad rhwng y bobl fregus a'r bobl sy'n lledu propaganda eithafol. Rydym yn parhau i wahardd pobl sydd ynghlwm wrth weithgarwch eithafol o'r DU. Rydym yn ymdrechu i darfu ar waith llefarwyr eithafol yn y wlad hon. Casgliad yr ETF oedd ei bod hi'n bosibl bod angen deddfwriaeth bellach i fynd i'r afael â grwpiau ac unigolion sy'n hyrwyddo safbwyntiau eithafol, ond sy'n ofalus i aros o fewn y ddeddfwriaeth gyfredol o ran defnyddio iaith atgas a therfysgaeth. Mae hyn o dan ystyriaeth ar hyn o bryd.

2.21 Mae gweithredu yn erbyn eithafiaeth ac eithafwyr ac yn erbyn propaganda terfysgol yn y gymuned oll yn hanfodol. Mae grwpiau cymunedol yn cydweithio'n dda â thimau'r heddlu sy'n gallu delio â deunydd anghyfreithlon ar-lein. Ond rydym yn parhau i ariannu prosiectau lleol yn yr ardaloedd blaenoriaeth ar gyfer Atal er mwyn tynnu sylw pobl ifanc a staff y rheng flaen at eithafiaeth ac esbonio sut i ymateb iddo. Rydym wedi trefnu hyfforddiant ar gyfer grwpiau'r gymdeithas war gan arbenigwyr yn y sector cyfathrebu er mwyn ymgyrchu ar-lein

---

[4] Cynhadledd Diogelwch Munich, 5 Chwefror 2011 – https://www.gov.uk/government/speeches/pms-speech-at-munich-security -conference

yn erbyn propaganda eithafol a therfysgol. Cadarnhaodd yr ETF bod angen rhagor o waith yn y maes hwn, a byddwn yn ehangu'r cymorth ar gyfer sefydliadau'r gymdeithas war.

2.22 Y sylfaen ar gyfer y rhan fwyaf o'n gwaith gyda phobl ifanc fregus yw'r rhaglen Channel aml-asiantaeth sy'n cael ei chynnal gan yr awdurdodau lleol, asiantaethau statudol a'r heddlu mewn dinasoedd ar draws Cymru a Lloegr. Mae Channel yn adnabod ac yna'n darparu cymorth penodol (a hynny'n aml gan sefydliadau nad ydynt yn gysylltiedig â'r llywodraeth) i bobl sydd mewn perygl o gael eu radicaleiddio. Daeth yr ETF i'r casgliad y dylid ymestyn Channel a sicrhau bod darparu Channel yn ofyniad cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr. Cyn cyflwyno'r rhaglen ar draws y wlad yn Ebrill 2012, roedd dros 400 o bobl wedi cael cymorth trwy Channel. Rhwng dyddiad cyflwyno Channel yn genedlaethol a diwedd Rhagfyr 2013, gwelwyd tua 1,600 o atgyfeiriadau, ac aeth 300 o'r rhain ymlaen i gael cymorth.

2.23 Mae llawer o sectorau'n bwysig yn ein gwaith wrth ddelio â phropaganda eithafol a chynorthwyo phobl ifanc a allai fod mewn perygl o gael eu radicaleiddio. Rydym wedi recriwtio cydlynwyr penodol i weithio gyda phrifysgolion a cholegau, ac mae Prifysgolion y DU (UUK) wedi lansio gwefan i rannu arferion gorau o ran rheoli llefarwyr allanol mewn sefydliadau addysg uwch. Bydd Ofsted yn cymryd y risgiau sy'n gysylltiedig ag Atal i ystyriaeth yn ystod eu rhaglen arolygu. Cytunodd yr ETF y dylai'r Adran Addysg ymgynghori ar god ymarfer gwirfoddol, sy'n pennu'r safonau ar gyfer ysgolion atodol crefyddol, gan gynnwys polisïau i amddiffyn plant a phobl ifanc rhag niwed. Rydym wedi bod yn rhoi mwy o gefnogaeth i'r Comisiwn Elusennau er mwyn ei gwneud yn haws iddynt gymryd camau yn erbyn elusennau yng Nghymru a Lloegr sy'n cam-ddefnyddio eu statws at ddibenion eithafol ac i gefnogi gweithgarwch terfysgol (yma neu dramor). Casgliad yr ETF oedd bod ar y Comisiwn Elusennau angen pwerau newydd a chryfach i roi diwedd ar gam-drin elusennau, ac mae'r Llywodraeth yn ymgynghori ar hyn ar hyn o bryd.

2.24 Ar 30 Medi 2013, roedd yna 120 o bobl yn y carchar am resymau terfysgaeth ac eithafiaeth ym Mhrydain Fawr, gan gynnwys 10 o bobl ar remand wrth ddisgwyl achos llys am droseddau sy'n gysylltiedig â therfysgaeth. Mae yna fygythiad sylweddol y gallai pobl sydd yn y carchar am droseddau terfysgaeth a rhai carcharorion eraill dod i gysylltiad â radicaleiddio yn y carchar ei hun. Mae'r bygythiad hwn yn galw am ymateb penodol a phwrpasol, sy'n rhywbeth rydym wedi bod yn ei ddatblygu mewn blynyddoedd diweddar ar y cyd â gwledydd eraill, gan gynnwys trwy ffora rhyngwladol fel y Fforwm Gwrthderfysgaeth Byd-eang a Rhwydwaith Ymwybyddiaeth am Radicaleiddio'r UE. Nododd yr ETF y cymerir camau pellach i reoli gweithgarwch carcharorion sy'n gysylltiedig â therfysgaeth (ac yn enwedig eu gallu i gael gafael ar ddeunyddiau eithafol) ac i barhau â'r rhaglenni Atal yn y carchardai.

**AMDDIFFYN**

2.25 Mae diogelwch amddiffynnol effeithiol yn ddull pwysig o rwystro terfysgaeth, ac yn ffordd o amharu ar weithgarwch terfysgwyr. Rydym wedi parhau i flaenoriaethu diogelwch ffiniau ac awyrennau, ardaloedd trefol prysur, (a elwir yn 'llefydd poblog') a'n Seilwaith Cenedlaethol Critigol (CNI).

2.26 Mae sawl haen i'r gwaith o ddiogelu ffiniau ac mae angen iddo gynnwys ein system teithebau, trefniadau i bennu pwy sy'n dod i mewn i'r wlad ac yn ymadael â hi, a rheolaeth ffisegol wrth gyrraedd. Mae angen iddo fynd i'r afael â symudiadau teithwyr a chargo. Mae angen dadansoddiad cyflym a chynhwysfawr o'r data, a chydweithredu agos rhwng yr asiantaethau sy'n gweithredu ar ein ffiniau a thramor.

2.27 Rydym yn parhau i foderneiddio asiantaethau'r ffiniau, ac yn enwedig Llu newydd y Ffiniau a sefydlwyd ym mis Mawrth 2012 â chylch gorchwyl i amddiffyn a diogelu ffiniau'r DU trwy gyflawni rheolaeth ar fewnfudo a thollau ar gyfer y bobl a'r nwyddau sy'n dod i mewn i'r DU. Mae'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, a sefydlwyd ym mis Hydref 2013, yn cynnwys adran newydd i reoli'r gwaith o Blismona'r Ffiniau, ac mae ganddi gylch gorchwyl i atgyfnerthu diogelwch ein ffiniau ac ymdrin â throseddu difrifol, cyfundrefnol a chymhleth.

2.28 Mae'r DU wedi bod ar flaen y gad yn y gwaith o ddatblygu systemau i gasglu a phrosesu data am deithwyr. Mae'r data hwn yn ein galluogi i atal rhai pobl rhag dod i mewn i'r wlad, a chymryd camau yn erbyn eraill wrth iddynt gyrraedd (e.e. lle bo gwarant ddilys i'w harestio). Mae data yn hanfodol er mwyn cynnal ffiniau cadarn. Rydym wedi gwella'n sylweddol y materion o gylch faint o wybodaeth am deithwyr a gesglir gan gwmnïau awyrennau, a phryd. Nid ydym wedi gallu dod i gytundeb ar gaffael data ychwanegol (a elwir yn Gofnodion o Enwau Teithwyr, neu PNR) o fewn yr UE fel y byddem wedi ei hoffi, er bod y data hwn yn cael ei ddarparu ar gyfer gwledydd eraill, ac mae hyn wedi dal cyfarwyddeb berthnasol yr UE yn ôl. Byddwn felly'n negodi cytundebau dwyochrog lle bynnag y bo modd.

2.29 Mae ein Cynllun o Wiriadau Cyn Gadael yn atal pobl sy'n peri bygythiad o derfysgaeth rhag hedfan i mewn nac allan o'r DU trwy system led-awtomataidd o gyfnewid data rhwng ein Canolfan Targedu Ffiniau Cenedlaethol rhyngasiantaeth a'r cwmnïau cludo. Rydym wedi atal nifer fechan o bobl a allai fod yn fygythiad i ddiogelwch awyrennau, yn ein barn ni, rhag teithio. Mae'r mesurau hyn yn arbennig o bwysig yng ngoleuni'r bygythiadau newydd o derfysgaeth sy'n ein hwynebu, a'r ffaith fod rhai grwpiau mor benderfynol o ymosod ar awyrennau sifil.

2.30 Mae'r gwaith mewn perthynas â chargo yn dal i ganolbwyntio ar roi Trefn Cargo i Mewn i'r UE ar waith yn effeithiol, a buom yn allweddol wrth sicrhau cytundeb yn hyn o beth yn 2012. Rydym wedi parhau i ehangu ein systemau ein hunain ar gyfer canfod achosion lle bo pobl yn ceisio mewnforio deunyddiau radiolegol neu niwclear (a elwir yn Cyclamen).

2.31 Rydym wedi gwneud newidiadau pellach i'n technoleg sgrinio at ddibenion diogelwch mewn meysydd awyr er mwyn cadw i fyny â'r bygythiad sy'n esblygu, gan gynyddu cyflwyniad sganwyr diogelwch ar draws meysydd awyr y DU; ac rydym yn fodlon bod lefel cyfredol y bygythiad yn cyfiawnhau parhad y cyfyngiadau ar gludo hylifau. Mae diogelwch ein hawyrennau ein hunain yn dibynnu ar ddiogelwch ffisegol meysydd awyr dramor, ac rydym wedi parhau i ariannu rhaglenni diogelwch meysydd awyr mewn ardaloedd lle mae bygythiad mawr. Rydym wedi buddsoddi ymhellach yn ein rhwydwaith ein hunain o swyddogion diogelwch awyrennau dramor hefyd.

2.32 Mae angen i ni ddal ati i'w gwneud yn anos i derfysgwyr gael gafael ar ddeunyddiau y gellid eu defnyddio i wneud ffrwydron yn y wlad hon. Mae hyn yn arbennig o berthnasol wrth i ni ddelio â'r bygythiad gan derfysgwyr sy'n gweithredu ar eu pennau eu hunain yma. Trwy weithio gyda'r byd diwydiant, rydym wedi llwyddo i leihau eu defnydd o ddeunyddiau a allai

ladd, trwy ddarparu cyngor gwyddonol arbenigol ar ddewisiadau eraill, sy'n llai peryglus. Yn 2014, byddwn yn cyfyngu ar argaeledd sylweddau eraill, gan ddefnyddio rheoliad yr UE ar farchnata a defnyddio rhagsylweddion ffrwydrol.

2.33 Mae gan y DU raglen gadarn i amddiffyn y CNI, sy'n darparu gwasanaethau hanfodol fel cyfathrebu, ynni, gwasanaethau brys, cyllid, bwyd, llywodraeth, iechyd, trafnidiaeth a dŵr. Yn hanesyddol, mae terfysgaeth wedi peri bygythiad i CNI ac rydym wedi darparu cyngor ac wedi pennu safonau ar gyfer systemau diogelwch ffisegol. Mae hyn yn parhau. Mae seiberymosodiadau yn fygythiad cynyddol, a dyrannwyd cyllid o'r Rhaglen Seiberddiogelwch Genedlaethol i fynd i'r afael â hyn. Mae cydlynu ein gwaith ar derfysgaeth a seiberfygythiadau yn flaenoriaeth: ar hyn o bryd, ychydig o dystiolaeth a welwyd am fygythiad o seiberderfysgaeth o bwys yn ei hawl ei hun.

2.34 Rydym yn parhau i wella diogelwch amddiffynnol mewn mannau poblog trwy dîm plismona pwrpasol. Trwy gydol y flwyddyn hon, bu'r heddlu'n darparu cyngor penodedig pellach ar gyfer sefydliadau Moslemaidd a mosgiau a oedd yn wynebu bygythiadau o du eithafwyr yr asgell dde.

**PARATOI**

2.35 Mae dulliau a thactegau terfysgwyr yn newid. Mae angen i'n rhaglenni ar gyfer ymateb i ymosodiad terfysgol newid hefyd er mwyn eu cadw'n effeithiol. Rydym wedi parhau i ddatblygu'r gallu sydd ei hangen i ddelio ag ymosodiad gan grŵp terfysgol gan ddefnyddio drylliau y bwriedir iddo bara am gyfnod estynedig - sef methodoleg a welwyd yn yr ymosodiadau ar In Amenas yn Algeria ac ar Ganolfan Siopa Westgate yn Nairobi yn 2013 (gan achosi niferoedd sylweddol iawn o farwolaethau yn y naill achos a'r llall, gan gynnwys gwladolion Prydain). Rydym eisoes wedi cwblhau proses o ail-daclu heddluoedd, ac wedi ymestyn yr hyfforddiant i gannoedd o staff eraill yn y gwasanaethau brys trwy gydol 2013.

2.36 Mae angen cydlynu'r gwaith i ymateb i ddigwyddiad o derfysgaeth â rhaglenni eraill y Llywodraeth er mwyn mynd i'r afael â phob math o argyfyngau sifil. Mae Coleg Cynllunio ar gyfer Argyfwng (EPC) Swyddfa'r Cabinet wedi hyfforddi dros 4,000 o bobl, gan gynnwys ymatebwyr brys, prif weithredwyr a swyddogion cyd-nerthu eraill. Mae'r EPC yn gweithio gyda'r sector preifat hefyd bellach, ac yn enwedig canolfannau siopa mawr a gweithredwyr trafnidiaeth.

2.37 Mae gennym raglen hirsefydlog i ymateb i argyfwng cemegol, biolegol, radiolegol neu niwclear (CBRN) sy'n gysylltiedig â therfysgaeth. Rydym wedi datblygu rhaglenni newydd er mwyn ei gwneud yn haws i ymatebwyr brys nad ydynt yn rhai arbenigol gymryd camau i achub bywydau yn y fan a'r lle.

2.38 Mae'r gwersi a ddysgwyd o'r gwaith o ddelio â CBRN ac ymosodiad â drylliau wedi bwydo rhaglen ehangach a mwy uchelgeisiol o lawer i wella'r cydweithio a'r cydweithredu rhwng y gwasanaethau brys yn sgil digwyddiadau mawr eraill. Sefydlwyd Rhaglen Rhyngweithredu ar y Cyd y Gwasanaethau Brys (JESIP) ym mis Medi 2012 a thrwy gydol 2013, lansiwyd y rhaglen fwyaf erioed o hyfforddiant ar y cyd ar gyfer y gwasanaethau brys yn y DU. Rydym yn disgwyl i JESIP gyflawni newidiadau gwirioneddol a thymor hir yng ngallu'r gwasanaethau brys i gydweithio'n effeithiol.

## CASGLIAD

Mae CONTEST yn darparu fframwaith strategol cadarn ar gyfer ein gwaith gwrthderfysgaeth. Mae angen iddo addasu i gadw ar ben y bygythiadau newidiol gan derfysgwyr.

Mae'r Llywodraeth wedi parhau i ddarparu'r pwerau a'r galluoedd sydd eu hangen ar yr heddlu a'r asiantaethau diogelwch a chudd-wybodaeth er mwyn iddynt wneud eu gwaith. Mae'r pwerau hyn yn angenrheidiol ac yn gymesur ac yn destun arolygu a chraffu manwl. Mae gennym ymdrech barhaus ar draws y Llywodraeth i ddelio â'r bygythiadau newydd a'r amrywiaeth ehangach o fygythiadau sy'n ein hwynebu ni dramor erbyn hyn.

Rydym wedi cynyddu cyflymdra ac amrywiaeth ein gwaith Atal. Rydym yn gwneud ein ffiniau a'n sector awyrennau yn fwy diogel byth. Rydym yn ail-gyflunio ein hymateb brys i fynd i'r afael â dulliau gweithredu a thechnegau newydd y terfysgwyr.

Yn llygaid llawer, mae ymateb gwrthderfysgaeth y DU gyda'r mwyaf effeithiol yn y byd. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i gynnal diogelwch y cyhoedd a pharhau i'w hamddiffyn.